OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Y Bala, Gwynedd) (Gwahardd Traffig a Therfyn Cyflymder Dros Dro) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *24 Mehefin 2019* |
| *Yn dod i rym* | *29 Mehefin 2019* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd yr A494, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd bod Triathlon y Bala yn cael ei gynnal ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Y Bala, Gwynedd) (Gwahardd Traffig a Therfyn Cyflymder Dros Dro) 2019 a daw i rym ar 29 Mehefin 2019.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(i) unrhyw gerbyd gwasanaeth cyhoeddus;

(ii) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys;

(1) 1984 p. 27. Mewnosodwyd adran 16A gan adran 1(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd (Digwyddiadau Arbennig) 1994. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 27), mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2019 No. (W. )

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A494 Trunk Road (Bala, Gwynedd) (Temporary Traffic Prohibition and Speed Limit) Order 2019

| | |
|---|---|
| *Made* | *24 June 2019* |
| *Coming into force* | *29 June 2019* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant lengths of the A494 Trunk Road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited and restricted due to the Bala Triathlon event being held on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 16A of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

**Title, Commencement and Interpretation**

**1.** The title of this Order is the A494 Trunk Road (Bala, Gwynedd) (Temporary Traffic Prohibition and Speed Limit) Order 2019 and it comes into force on 29 June 2019.

**2.** In this Order:

"closure period" *("y cyfnod cau")* means that period commencing at 14:00 hours on 29 June 2019 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed;

"exempted vehicle" (*"cerbyd esempt")* means:

(i) any public service vehicle;

(ii) any vehicle being used by the emergency services;

(1) 1984 c.27. Section 16A was inserted by the Road Traffic Regulation (Special Events) Act 1994, section 1(1). By virtue of S.I.1999/672, article 2 and Schedule 1, and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.27), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(iii) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â gwaith ar y ffordd neu oleuadau neu arwyddion traffig neu waith brys i unrhyw garthffos neu i unrhyw brif bibell neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan, neu gyfarpar telathrebu yn y darn o'r ffordd o dan sylw, neu mewn unrhyw dir cyfagos;

(iv) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan un neu ragor o swyddogion awdurdodedig i gefnogi Triathlon y Bala ac am resymau diogelwch y digwyddiad hwnnw;

(v) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(a) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(b) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "y cyfnod cau" ("*closure period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 14:00 o'r gloch ar 29 Mehefin 2019 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd yr A494 Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

### Gwaharddiad

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod y cyfnod cau, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

### Cyfyngiad

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod y cyfnod cau, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt fel y'i pennir

(iii) any vehicle being used in connection with works to the road or lighting or traffic signs or emergency works to any sewer or to any main or apparatus for the supply of gas, water or electricity, or telecommunications in, or in any land adjacent to, a length of road concerned;

(iv) any vehicle being used by an authorised official in support of and for safety reasons of the Bala Triathlon;

(v) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(a) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(b) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

"special forces" *("lluoedd arbennig")* means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

"the trunk road" *("y gefnffordd")* means the A494 Dolgellau to South of Birkenhead trunk road.

### Prohibition

**3.** No person may, during the closure period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

### Restriction

**4.** No person may, during the closure period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle as specified in article 2(ii) and 2(v) at a speed exceeding 40 miles per hour on the length of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

### Suspension

**5.** Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the length of the trunk road specified in Schedule 2 is suspended during such times as the

yn erthygl 2 (ii) a 2(v), yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**Atal dros dro**

**5.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthygl 4 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**6.** Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 a'r cyfyngiad yn erthygl 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 2 ddiwrnod ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 24 Mehefin 2019

*Richard Morgan*
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Gwahardd Cerbydau Dros Dro

1. Y darn o gefnffordd yr A494 sy'n ymestyn o bwynt 12 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd sy'n arwain at Ganolfan Hamdden Penllyn, y Bala, tua'r de-orllewin hyd at bwynt 20 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt y gyffordd sy'n arwain at Faes Carafannau Glan-llyn.

2. Y darn o gefnffordd yr A494 sy'n ymestyn o bwynt 12 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd sy'n arwain at Ganolfan Hamdden Penllyn, y Bala, tua'r de-orllewin hyd at bwynt 6 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â'r ffordd Dosbarth 3 sy'n arwain at Ryd-y-main ger Ysgol Ieuan Gwynedd. Sicrheir bod cerddwyr yn cael mynd i fangreoedd.

restriction specified in article 4 is in operation.

**Application**

**6.** The prohibition in article 3 and the restriction in article 4 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

**Duration of this Order**

**7.** The maximum duration of this Order is 2 days.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated 24 June 2019

*Richard Morgan*
Head of Planning, Asset Management and Standards
Welsh Government

## SCHEDULES

### SCHEDULE 1
### Temporary Prohibition of Vehicles

1. The length of the A494 trunk road that extends from a point 12 metres south-west of the centre-point of its junction with the road leading to Penllyn Leisure Centre, Bala in a south-westerly direction to a point 20 metres north-east of the centre point of the junction leading to Glanllyn Caravan Park.

2. The length of the A494 trunk road that extends from a point 12 metres south-west of the centre-point of its junction with the road leading to Penllyn Leisure Centre, Bala in a south-westerly direction to a point 6 metres north-east of its junction with the Class 3 road leading to Rhydymain near Ysgol Ieuan Gwynedd. Pedestrian access to premises will be maintained.

### SCHEDULE 2
### Temporary 40 mph speed limit

The length of the A494 trunk road that extends from a point 198 metres north-east of the centre-point of its junction with the A4212, for a distance of 500 metres.

**ATODLEN 2**
**Terfyn cyflymder 40 mya dros dro**

Y darn o gefnffordd yr A494 sy'n ymestyn o bwynt 198 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r A4212, am bellter o 500 metr.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A494 (Y BALA, GWYNEDD) (GWAHARDD TRAFFIG A THERFYN CYFLYMDER DROS DRO) 2019**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn i hwyluso cynnal Triathlon y Bala ar gefnffordd yr A494 rhwng y Bala a Rhyd-y-main yn Sir Gwynedd.

Effaith y Gorchymyn fydd gwneud y canlynol dros dro:

i) gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio cerbydau'r digwyddiad, cerbydau gwasanaeth cyhoeddus a cherbydau'r gwasanaethau brys, rhag mynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1 a 2 i'r Hysbysiad hwn. Pennir y llwybrau eraill yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn.

ii) gosod terfyn cyflymder 40 milltir yr awr dros dro (gydag esemptiad ar gyfer cerbydau'r gwasanaethau brys) ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Hysbysiad hwn. (Bydd y terfyn cyflymder dros dro yn weithredol drwy gydol y digwyddiad).

Rhoddir ystyriaeth i ailagor y ffordd fesul cam cyn i gyfnod y digwyddiad ddod i ben os bydd yn ddiogel gwneud hynny.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad a bennir yn Atodlen 1, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn weithredol rhwng 14:00 o'r gloch a 19:00 o'r gloch ar 29 Mehefin 2019.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad a bennir yn Atodlen 2, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn weithredol rhwng 08:00 o'r gloch a 13:00 o'r gloch ar 30 Mehefin 2019.

Disgwylir i'r cyfyngiad a bennir yn Atodlen 4, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, fod yn weithredol rhwng 14:00 o'r gloch a 19:00 o'r gloch ar 29 Mehefin a rhwng 08:00 o'r gloch a 13:00 o'r gloch ar 30 Mehefin 2019.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.gweddill.llyw.cymru/legislation/subordinate

**THE A494 TRUNK ROAD (BALA, GWYNEDD) (TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITION AND SPEED LIMIT) ORDER 2019**

The Welsh Ministers have made an Order under section 16A of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to facilitate the holding of the Bala Triathlon event on the A494 trunk road between Bala and Rhydymain in the County of Gwynedd.

The effect of the Order will be to temporarily:

i) prohibit all vehicles, other than event vehicles, public service vehicles and emergency services vehicles, from proceeding along the lengths of the trunk road specified in Schedules 1 and 2 to this Notice. The alternative routes are specified in Schedule 3 to this Notice.

ii) impose a 40 miles per hour speed limit (with exemption for emergency services vehicles) on the length of the trunk road specified in Schedule 4 to this Notice. (The temporary speed limit will be in place for the duration of the event).

Consideration will be given to re-opening the road in stages before completion of the event period if safe to do so.

The prohibition specified in Schedule 1, which will be signed accordingly, is expected to operate between 14:00 hours and 19:00 hours on 29 June 2019.

The prohibition specified in Schedule 2, which will be signed accordingly, is expected to operate between 08:00 hours and 13:00 hours on 30 June 2019.

The restriction specified in Schedule 4, which will be signed accordingly, is expected to operate between 14:00 hours and 19:00 hours on 29 June 2019 and 08:00 hours and 13:00 hours on 30 June 2019.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gweddill.gov.wales/legislation/subordinate (Select: Local Statutory Instruments/Temporary Traffic Orders/2019).

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

(Detholer: Offerynnau statudol lleol/Gorchmynion traffig dros dro/2019).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darn o gefnffordd yr A494 sy'n ymestyn o bwynt 12 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd sy'n arwain at Ganolfan Hamdden Penllyn, y Bala, i gyfeiriad y de-orllewin hyd at bwynt 20 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt y gyffordd sy'n arwain at Barc Carafanau Glan-llyn.

### ATODLEN 2
### Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darn o gefnffordd yr A494 sy'n ymestyn o bwynt 12 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd sy'n arwain at Ganolfan Hamdden Penllyn, y Bala, i gyfeiriad y de-orllewin hyd at bwynt 6 metr i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â'r ffordd Dosbarth 3 sy'n arwain at Ryd-y-main ger Ysgol Ieuan Gwynedd. Sicrheir bod cerddwyr yn cael mynd i fangreoedd.

### ATODLEN 3
### Llwybrau Eraill

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de yr effeithir arnynt wrth gau'r ddwy ffordd fydd ar hyd yr A4212 tua'r gorllewin o'r Bala ac yna ar hyd yr A470 tua'r de i Ddolgellau i ailymuno â'r A494. I'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd. Bydd pob cerbyd gwasanaeth cyhoeddus yn cael ei hebrwng ar hyd y ffordd sydd ar gau gan y cwmni sy'n rheoli'r traffig.

### ATODLEN 4
### Terfyn cyflymder 40 mya dros dro

Y darn o gefnffordd yr A494 sy'n ymestyn o bwynt 198 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r A4212, am bellter o 500 metr.

## SCHEDULES

### SCHEDULE 1
### Temporary Prohibition of Vehicles

The length of the A494 trunk road that extends from a point 12 metres south-west of the centre-point of its junction with the road leading to Penllyn Leisure Centre, Bala in a south-westerly direction to a point 20 metres north-east of the centre point of the junction leading to Glanllyn Caravan Park.

### SCHEDULE 2
### Temporary Prohibition of Vehicles

The length of the A494 trunk road that extends from a point 12 metres south-west of the centre-point of its junction with the road leading to Penllyn Leisure Centre, Bala in a south-westerly direction to a point 6 metres north-east of its junction with the Class 3 road leading to Rhydymain near Ysgol Ieuan Gwynedd. Pedestrian access to premises will be maintained.

### SCHEDULE 3
### Alternative Routes

The alternative route for southbound vehicles affected by both closures will be via the A4212 westbound from Bala and the A470 southbound to Dolgellau to re-join the A494. Vice versa for northbound vehicles. Public service vehicles will be escorted through the closure by the traffic management company.

### SCHEDULE 4
### Temporary 40 mph speed limit

The length of the A494 trunk road that extends from a point 198 metres north-east of the centre-point of its junction with the A4212, for a distance of 500 metres.